Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanfarian
# Llanfarian
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 4DA

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Llanfarian ym mhentref Llanfarian yng Ngheredigion. Mae’n gwasanaethu’r pentref a’r ardal gyfagos. Darpara addysg ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed.

Ar hyn o bryd, mae 55 o ddisgyblion ar y gofrestr ac maent wedi eu rhannu’n ddau ddosbarth oed cymysg. Mae 22% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw 57% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith yr aelwyd. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae’r ysgol yn nodi bod gan 17% o’r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn is na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym mis Medi 2012. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2009. Mae gan y pennaeth gyfrifoldeb addysgu sylweddol.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2014-2015 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanfarian yw £3,251. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £8,697 a’r isafswm yw £3,038. Mae Ysgol Gynradd Llanfarian yn yr 44fed safle allan o’r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn
- Bod disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda
- Bod medrau meddwl llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol
- Bod disgyblion yn ymddwyn yn gwrtais
- Bod yr ysgol yn gymuned ofalgar a bod y disgyblion yn teimlo'n ddiogel
- Bod disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol drwy gyfrannu i ystod o weithgareddau yn y gymuned leol

Fodd bynnag:

- Nid yw llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd
- Nid yw gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg na'r Saesneg ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n ddigonol
- Nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent
- Nid yw sylwadau'r athrawon ar waith y disgyblion bob amser yn gymorth iddyn nhw i wella
- Nid yw gweithdrefnau ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cofnodi'n ddigon clir

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- Bod gan y pennaeth ddealltwriaeth addas o anghenion yr ysgol
- Bod y pennaeth yn llwyddo i rannu ei weledigaeth ynghyd ag amcanion cyffredinol yr ysgol gyda'r staff.
- Bod y pennaeth yn adnabod y prif agweddau y mae angen eu gwella ac mae blaenoriaethau priodol ar waith er mwyn cyflawni'r rheiny
- Bod yr ysgol wedi ailstrwythuro cyfrifoldebau'r staff yn ddiweddar, a bod gan unigolion gyfrifoldebau a disgrifiadau swydd priodol

Fodd bynnag:

- Nid yw'r gyfundrefn hunanarfarnu wedi ymwreiddio'n ddigonol yn yr ysgol
- Nid yw'r corff llywodraethol yn gweithredu'n ddigon strategol nac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad
- Nid yw llawer o flaenoriaethau'r cynlluniau datblygu yn cael eu gweithredu yn ddigon effeithiol

## Argymhellion

A1 Codi safonau llafar disgyblion yn y Gymraeg, a safonau ysgrifennu estynedig disgyblion cyfnod allweddol 2 yn y ddwy iaith, ar draws y cwricwlwm

A2 Darparu tasgau priodol i ymestyn y disgyblion mwy abl

A3 Sicrhau gwell cysondeb yn y sylwadau ar waith disgyblion er mwyn eu galluogi i ddeall yn well yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella

A4 Sicrhau bod gweithdrefnau ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cofnodi'n glir, ac yn nodi eu cynnydd

A5 Datblygu rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol er mwyn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol

A6 Gweithredu'r strwythur ar gyfer hunanarfarnu yn rheolaidd ac yn drwyadl

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau disgyblion yn amrywio pan fyddant yn cychwyn yn yr ysgol, ond mae safon ieithyddol llawer ohonynt yn is na'u safonau yn y medrau eraill. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol. Maent yn gwrando'n ofalus ar yr athrawon ac yn cynnig ymatebion synhwyrol i gwestiynau. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd yn y dosbarthiadau na thu allan i'r gwersi.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, er bod gan lawer ddiddordeb mewn llyfrau, nid oes gan fwyafrif ohonynt ddealltwriaeth gadarn o'r testun maent yn ei ddarllen ac ni fedrant bob amser ragfynegi na thrafod cymeriadau yn bwrpasol.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu. Yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn ffurfio ystod o frawddegau a defnyddio atalnodi yn addas. Yng nghyfnod allweddol 2 mae disgyblion yn parhau i wneud cynnydd priodol. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ysgrifennu'n greadigol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn datblygu'n briodol. Mae safon sillafu a chyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn amrywio ar draws yr ysgol. Mae gallu llawer o ddisgyblion i gymhwyso'u medrau ysgrifennu mewn gwaith ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda ac maent yn cymhwyso'r medrau yn effeithiol mewn gwahanol bynciau ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau mathemategol yn llwyddiannus mewn pynciau eraill, fel hanes, dylunio a thechnoleg a gwyddoniaeth.

Nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent. Mae medrau meddwl llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas.

Mae'r niferoedd isel o ddisgyblion yn golygu nad yw cymhariaeth perfformiad cyffredinol yr ysgol â meincnodau cenedlaethol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2 yn ddibynadwy.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg, amrywiodd perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol. Amrywiodd perfformiad disgyblion ar y deilliant uwch na'r disgwyl, deilliant 6, mewn medrau

llythrennedd rhwng yr 50% is a’r 25% isaf yn ystod yr un cyfnod a rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd ddiwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad disgyblion ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi bod yn weddol gyson yn y 25% uchaf yn Saesneg a’r Gymraeg ac wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf mewn mathemateg.  Dros yr un cyfnod, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch, sef lefel 5, mewn medrau Saesneg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 50% uwch a rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf yn y Gymraeg a mathemateg.

Nid oes patrwm penodol o wahaniaeth rhwng deilliannau bechgyn o’u cymharu â’r merched dros gyfnod o dair blynedd.  Gan fod y niferoedd mor fach, nid oes modd cymharu perfformiad disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim â gweddill y garfan yn y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2 dros y tair blynedd ddiwethaf.

**Lles:  Digonol**

Mae’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod y gallant droi at aelodau staff a ffrindiau am gymorth pan fydd angen.  Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at weithgareddau corfforol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn y gwersi a thu allan i’r dosbarthiadau.  Maent yn dangos parch a gofal at ei gilydd ac at eraill.  Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn gofalu’n dda am y disgyblion iau ar y buarth.

Mae llawer yn dangos diddordeb a chymhelliant cryf yn eu gwaith.  Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion bob amser yn meddu ar y medrau angenrheidiol sydd eu hangen i osod a monitro eu targedau eu hunain er mwyn symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae aelodau’r cyngor ysgol a’r pwyllgor eco yn lleisio barn a gwneud penderfyniadau yn hyderus er mwyn gwella gwahanol agweddau o fywyd yr ysgol.  Er enghraifft, maent yn cael cyfle i ddewis thema’r ffair haf.  Trefna’r disgyblion weithgareddau cyson i godi arian at achosion da o’u dewis.  Mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o’r rheini nad ydynt mor ffodus â nhw.

Mae’r disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol drwy gyfrannu at ystod eang o weithgareddau yn y gymuned leol; er enghraifft, maent yn cyfrannu’n dda at weithgareddau Sioe Llanfarian a’r Parêd Gŵyl Dewi.

Er yn dechrau gwella, mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi bod yn is na’r cyfartaledd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.  Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu'n briodol ar gyfer bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r ystod eang o ymweliadau mae disgyblion yn eu mynychu y tu allan i'r ysgol, y cyfleoedd iddynt holi ymwelwyr i'r ysgol a'r gweithgareddau allgyrsiol eraill a ddarperir yn cyfoethogi ac ehangu eu profiadau dysgu yn effeithiol.

Mae'r ysgol wrthi'n addasu ei chynlluniau gwaith i fodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llawn. Mae'n darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd ar draws y pynciau eraill. Fodd bynnag, nid yw hyd yma wedi cynnig digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu creadigol ac estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae ethos Cymreig yn bodoli yn yr ysgol ac mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n lled effeithiol ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn ddiweddar. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw staff bob amser yn annog digon ar y disgyblion i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarthiadau. Mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau amrywiol a phriodol i hybu dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy eu hannog i gymryd rhan mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol a chyfrannu'n llwyddiannus at waith yr Urdd.

Mae'r ystod o weithgareddau, sy'n cynnwys ailgylchu a gweithgaredd garddio, yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang yn dda a cheir cysylltiadau effeithiol â gwledydd tramor, sy'n codi ymwybyddiaeth y disgyblion o wahaniaethau mewn arferion byw pobl mewn gwahanol wledydd.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan athrawon wybodaeth dda am y pynciau a'r meysydd dysgu, maent yn cynllunio'n briodol, a defnyddiant ddulliau addysgu amrywiol i sicrhau profiadau dysgu effeithiol i'r disgyblion. Mae'r athrawon a'r staff ategol yn cydweithio'n briodol i greu ethos dysgu gweithgar.

Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn rhannu amcanion a nodau'n briodol ac yn trefnu gweithgareddau sy'n sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol. Maent yn trafod meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion ac yn defnyddio dulliau holi addas i gynorthwyo'r disgyblion i feddwl. Mae athrawon yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn llwyddiannus i sicrhau ymddygiad addas yn y sesiynau.

Yn yr ychydig wersi llai effeithiol, nid yw disgwyliadau'r athrawon bob amser yn ddigon uchel ac nid oes digon o her i'r disgyblion, yn arbennig ar gyfer y rhai mwy abl. Yn y gwersi hyn mae'r cyflymder yn araf ac nid yw'r tasgau bob amser yn ddigon addas i fodloni anghenion gwahanol ddisgyblion. Mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio gallu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig.

Mae gan yr ysgol weithdrefn olrhain addas sy'n dal i ddatblygu. Mae gwaith ysgrifenedig disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r adborth bob amser yn cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith ac i symud i'r cam nesaf. Anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion adolygu gwaith eu cyfoedion ac nid yw'r broses o osod a monitro targedau ar eu cyfer wedi gwreiddio ar draws yr ysgol.

Mae'r adroddiadau i rieni yn bodloni'r gofynion. Maent yn eglur ac yn cynnig cyfleoedd i rieni ymateb i'r sylwadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Mae ganddi bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Anogir y disgyblion i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda mewn sesiynau addoli ar y cyd ac yn ystod y gwersi.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i sicrhau arweiniad, cymorth a chefnogaeth arbenigol i'r disgyblion pan fydd angen. Mae'n gweithredu cynlluniau priodol i wella presenoldeb ac mae'r camau yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fynediad llawn i holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn adnabod eu hanghenion yn gynnar ac mae cynlluniau addysg unigol cyfredol ar gyfer pob disgybl sydd ar y gofrestr. Nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer eu cynorthwyo yn cael eu cofnodi'n ddigon clir, nac yn nodi cynnydd yn erbyn eu targedau yn ddigon penodol. Er gwaethaf hyn, mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cyfeillgar a theuluol yn bodoli yn yr ysgol ac mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel. Mae polisïau a gweithdrefnau da yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl. Mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy gasglu at wahanol elusennau. Anogir y disgyblion yn dda i barchu ac i ofalu am eu hamgylchedd.

Ceir arddangosfeydd lliwgar a symbylus yn yr ystafelloedd dosbarth ac maent yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol. Lleolir yr ysgol ar safle hyfryd a gwneir defnydd da o'r safle a'r ardal o gwmpas. Caiff yr ardd ei defnyddio'n bwrpasol i hybu dealltwriaeth y disgyblion o fyd natur. Mae digon o adnoddau o ansawdd addas yn yr ysgol ac maent yn gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion.

| **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth addas o anghenion yr ysgol a llwydda i rannu ei gweledigaeth, ynghyd ag amcanion cyffredinol yr ysgol, sy'n canolbwyntio'n addas ar wella safonau a lles y disgyblion, gyda'r staff. Mae'n adnabod y prif agweddau y mae angen eu gwella ac mae blaenoriaethau priodol ar waith er mwyn cyflawni'r rheiny. Mae'r ysgol wedi ailstrwythuro cyfrifoldebau'r staff yn ddiweddar, ac mae gan unigolion gyfrifoldebau priodol a disgrifiadau swydd clir. Mae'r strategaethau a threfniadau diweddar, sy'n canolbwyntio ar godi safonau a gwella agweddau o'r ddarpariaeth, yn synhwyrol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael digon o amser i ymsefydlu a chael effaith lawn hyd yma.

Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac maent yn rhoi sylw cynyddol i godi safonau a thrafod blaenoriaethau'r ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn ffocysu'n ddigon clir ar werthuso cynnydd disgyblion nac ar effaith strategaethau newydd.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth ar faterion priodol. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ymwybyddiaeth fanwl o berfformiad yr ysgol mewn perthynas ag ysgolion tebyg, ac nid ydynt yn herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad nac yn cyfrannu'n effeithiol at arweinyddiaeth strategol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu'n gadarn, ac mae'r gwaith o ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn datblygu'n addas. Mae codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn rhan annatod o'r cynllun gwella.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae dogfen hunan arfarnu'r ysgol, er yn gynhwysfawr, yn creu darlun gor-gadarnhaol o'r ysgol. Mae prinder tystiolaeth uniongyrchol a chadarn i gefnogi rhan fwyaf y barnau a geir ynddo.

Prin yw'r dystiolaeth bod diwylliant cryf o hunanarfarnu wedi bodoli yn yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae arweinwyr, gyda chefnogaeth yr ymgynghorydd her, wedi dechrau sefydlu gweithdrefnau hunanarfarnu sy'n gwneud defnydd priodol o ddata cyrhaeddiad disgyblion ac adroddiadau monitro allanol.

Mae gan yr ysgol ymwybyddiaeth briodol o'r prif flaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid oes ganddi, hyd yma, ddarlun digon eglur o'r holl feysydd i'w gwella, gan nad yw'r trefniadau monitro mewnol yn cael eu gweithredu yn ddigon trylwyr. Prin yw cyfraniad y staff a'r llywodraethwyr i'r broses hunanarfarnu.

Mae'r cynllun gwella ysgol cyfredol yn cynnwys blaenoriaethau addas er mwyn sicrhau gwelliant. Fodd bynnag, er bod y cynllun yn cynnwys targedau meintiol, nid yw'r gweithgareddau yn ffocysu digon ar y meini prawf llwyddiant ac mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i fesur cynnydd.

Nid yw arweinwyr ychwaith yn ystyried deilliannau'r cynllun gwella ysgol blaenorol yn ddigon manwl wrth bennu blaenoriaethau'r cynllun cyfredol. O ganlyniad, nid yw'r blaenoriaethau'n ddigon clir i sicrhau cynnydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Cydweithia'r ysgol yn llwyddiannus gyda nifer o bartneriaid, gan gynnwys y rhieni, ysgolion eraill a'r gymuned. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion.

Mae'r berthynas â'r rhieni yn gadarn ac maent yn gefnogol o waith yr ysgol. Maent yn codi arian yn rheolaidd i brynu adnoddau amrywiol i gefnogi'r dysgu. Er enghraifft, maent wedi sicrhau bod ardal allanol ddeniadol gan ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ac mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau dysgu. Mae'r rhieni hefyd yn rhedeg clwb garddio llwyddiannus ac mae'r disgyblion yn plannu, tyfu a gwerthu perlysiau a llysiau trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn hybu eu medrau mentergarwch a datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol.

Mae trefniadau trosglwyddo da yn bodoli gyda'r ysgol feithrin gyfagos i sicrhau bod disgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym wrth gychwyn yn y dosbarth derbyn. Mae trefniadau trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd yn effeithiol ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag ysgolion eraill y clwstwr er mwyn safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae yn sicrhau bod gan athrawon ddealltwriaeth briodol o ran lefelu gwaith disgyblion.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn ymweld â'r eglwysi lleol yn gyson, ac mae'r gweinidogion lleol yn arwain gwasanaethau yn yr ysgol yn rheolaidd. Enghraifft arall yw sut mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi dysgu am fyd gwaith yn dilyn ymweliad gan aelod o'r gymuned sydd yn nyrs. Mae'r profiadau hyn yn gymorth i'r disgyblion werthfawrogi pwysigrwydd bod yn rhan o'u cymuned leol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o athrawon cymwys a chymorthyddion dysgu i gyflwyno'r cwricwlwm. Fodd bynnag, prin yw'r amser cyson sydd gan y pennaeth i fynd i'r afael â materion arweinyddol a strategol.

Gwna athrawon ddefnydd addas o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r pennaeth yn rheoli'r trefniadau'n briodol. Mae trefniadau addas yn eu lle ar gyfer rheoli perfformiad yr athrawon a'r cymorthyddion dysgu. Mae'r broses hon yn seiliedig ar anghenion proffesiynol unigolion a blaenoriaethau'r ysgol. Nid yw'r ysgol yn rhan o unrhyw gymunedau dysgu proffesiynol gydag ysgolion eraill ar hyn o bryd.

Mae'r arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol yn briodol. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael effaith addas ar safonau'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim.

O ystyried deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672308 - YSGOL GYMUNEDOL LLANFARIAN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 53 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 2.4 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 5 | 9 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 80.0 | 100.0 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 9 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 100.0 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 22.2 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 9 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.0 | 22.2 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 9 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 60.0 | 44.4 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad cyfnod allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 29 | 29<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 29 | 29<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 29 | 29<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 29 | 29<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 29 | 29<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 29 | 29<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 29 | 29<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 29 | 29<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 29 | 29<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 29 | 29<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 29 | 29<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 29 | 29<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 28 | 22<br>79%<br>63% | 6<br>21%<br>32% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| My child likes this school. | 28 | 23<br>82%<br>73% | 4<br>14%<br>25% | 1<br>4%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 28 | 25<br>89%<br>72% | 3<br>11%<br>25% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| My child is making good progress at school. | 28 | 20<br>71%<br>61% | 7<br>25%<br>33% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| Pupils behave well in school. | 28 | 20<br>71%<br>46% | 6<br>21%<br>45% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| Teaching is good. | 28 | 22<br>79%<br>60% | 6<br>21%<br>35% | 0<br>0%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 28 | 24<br>86%<br>64% | 3<br>11%<br>33% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 28 | 16<br>57%<br>47% | 9<br>32%<br>40% | 1<br>4%<br>6% | 0<br>0%<br>1% | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 28 | 17<br>61%<br>58% | 9<br>32%<br>33% | 2<br>7%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 28 | 19<br>68%<br>59% | 9<br>32%<br>36% | 0<br>0%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at school. | 28 | 22<br>79%<br>66% | 4<br>14%<br>31% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 26 | 18<br>69%<br>50% | 6<br>23%<br>34% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 27 | 14<br>52%<br>49% | 13<br>48%<br>40% | 0<br>0%<br>8% | 0<br>0%<br>2% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 28 | 18<br>64%<br>62% | 9<br>32%<br>31% | 0<br>0%<br>4% | 1<br>4%<br>2% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 28 | 14 | 12 | 0 | 1 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 50% | 43% | 0% | 4% | | |
| | | 45% | 38% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 27 | 11 | 14 | 0 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 41% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 21 | 7 | 13 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 33% | 62% | 0% | 0% | | |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 28 | 12 | 11 | 4 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 43% | 39% | 14% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 28 | 23 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 82% | 14% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Wyn Kirkman | Arolygydd Cymheiriaid |
| Helen Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.